**Ken Skates AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Cabinet Secretary for North Wales and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1426
Ein cyf/Our ref KSNWT/05039/24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

26 Ebrill 2024

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Mawrth ynghylch Deiseb P-06-1426 Gosod goleuadau traffig yng nghylchfan McDonald's Pont-y-pŵl.

Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd diogelwch ar y ffyrdd o ddifrif. Cafodd cydsyniad ar gyfer y siop Aldi yn y lleoliad hwn ei roi gan yr awdurdod cynllunio lleol. Fel rhan o'r datblygiad hwn cafodd sgrin weledd ei chyflwyno ar ochr ogleddol yr A4042 tuag at Gylchfan Pont-y-pŵl er mwyn cyfyngu ar weledd gormodol a allai achosi cyflymder uchel wrth agosáu at y gylchfan a hefyd amledd a chanlyniadau gwrthdrawiadau.

Mae cynllun coridor WeITAG ar gyfer yr A4042 hefyd wedi arwain at welliannau i'r gylchfan hon, gan gynnwys ailfarcio lonydd, croesfan a reolir i gerddwyr a therfyn cyflymder o 50mya yng nghylchfan Pont-y-pŵl. Yn ogystal, mae cysylltiadau ar draws y coridor drwy ddulliau heblaw am gerbydau preifat hefyd wedi'u gwella.

Mae'r astudiaeth bellach wedi'i chynnwys o fewn y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth , er bydd y cynllun yn cael ei ystyried ochr yn ochr â chynlluniau eraill tebyg ledled Cymru a bydd yn dibynnu ar y cyllid sydd ar gael.

Yn gywir,

**Ken Skates AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru
Cabinet Secretary for North Wales and Transport

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.